

Ewyllysio un ewyllys

“...fel na fydd ichwi mwyach dreulio gweddill eich amser yn y cnawd yn ôl chwantau dynol, ond yn ôl ewyllys Duw.” (adn. 2)

Beth am ddarllen 1 Pedr 4:1–11 ac yna myfyrio

Yr ydym yn symud yn awr at ail ran ein diffiniad o dduwioledeb, sef ‘ufudd-dod llwyr’. Mae’r saint nid yn unig yn rhoi eu sylw i Dduw ond maent yn rhoi eu hufudd-dod llwyr iddo hefyd. Maent yn rhoi ufudd-dod, nid yn unig yn llwyr, ond yn syth ac yn ewyllysgar. Mae’r duwiol yn hiraethu am un ewyllys gyda Duw. Maent am gerdded gyda Duw i’r fath raddau fel nad yw eu hewyllys hunanol hwy eu hunain yn cael fawr o le bellach. Mae Iesu yn dweud wrth ei Dad: “Yr wyf wedi dod i gyflawni dy ewyllys, O Dduw.” (Hebreaid 10:7) I Iesu, nid mater o ddyletswydd yn unig oedd cyflawni ewyllys Duw, ond gwir lawenydd ei enaid. Nid brwydr, ond gorfoledd oedd cyflawni ewyllys ei Dad. Yn hyn, yr ydym i ganlyn ei esiampl.

Nid yw y saint yn gofidio yn ormodol pan nad ydynt yn gwybod y rhesymau dros ewyllys Duw. Eu dymuniad yw bod yn ufudd i’w ewyllys. Mae llawer o Gristnogion yn dymuno gwybod ‘Pam?’ Mae’r duwiol yn dymuno gwybod ‘Beth?’: “Beth wyt ti’n ei gyflawni o fewn y sefyllfa yma? Paid â thrafod ond yn hytrach, gorchymyn, ac fe wnaif yr hyn yr wyt yn ei ddymuno.” Oni fyddai’n braf petai ein gweddïau yn adlewyrchu y math hwn o ddymuniad. Yn aml iawn, mae Cristnogion yn cwestiynu gorchmynion Duw ac ewyllys Duw ar eu cyfer. Mae’r duwiol yn ymddiried hyd yn oed pan nad oes eglurder. Maent yn gweld ewyllys Duw yn yr un modd ag y mae Paul yn ei weld yn Rhufeiniad 12:2. Maent am ddarganfod beth sy’n dda a derbyniol a pherffaith yn ei olwg ef. Yn ôl un emynydd: “Dy ewyllys di a wneler”.

Beth am fynd ymlaen i ddarllen:

Salm 40:6–8; Heb. 10:1–24

Meddylwch am y cwestiynau hyn:

1. Pam fod Iesu yn ymhyfrydu mewn cyflawni ewyllys ei Dad?
2. Beth oedd y canlyniad?

Gweddi

O Dad, rwy’n hiraethu am gyrraedd y lle hwnnw lle y byddaf yn ufudd i’th ewyllys yn gyfan gwbl. Rwy’n hiraethu am y llawenydd sydd yn dod o gyflawni dy ewyllys. Caniatâ i’th ewyllys fod yn destun cân a llawenydd i mi heddiw a phob dydd. Amen.